Adroddiad i'r	Cyngor Sir
Dyddiad y cyfarfod	19 Gorffennaf 2022
Awdur yr adroddiad	Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu/Rhian Evans, Cydlynydd Craffu
Cyflwynir gan	Cynghorydd Hugh Irving (Is-Gadeirydd Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu 2021/22)
Teitl	Adroddiad Blynyddol Pwyllgorau Craffu'r Cyngor 2021/22

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu ar gyfer 2021/22

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I gyflwyno adroddiad blynyddol y Pwyllgorau Craffu i'r Cyngor ar eu gweithgareddau yn ystod 2021/22.

2.2 I gydymffurfio ag Adran7.4.4 o Gyfansoddiad y Cyngor sy'n nodi bod yn rhaid i bwyllgorau craffu adrodd am eu gwaith yn flynyddol i'r Cyngor llawn a gwneud argymhellion ar gyfer eu rhaglenni gwaith at y dyfodol a diwygio dulliau gweithio os yw hynny'n briodol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cyngor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu ar gyfer 2021/22 ac yn rhoi sylwadau yn unol â hynny a chymeradwyo ei gyhoeddi.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn gosod amod y bydd Pwyllgorau Craffu'r Awdurdod yn adrodd yn flynyddol ar eu gweithgareddau yn ystod y flwyddyn i'r Cyngor Sir.

4.2 Roedd 2021/22 yn flwyddyn o addasu i'r 'normal newydd' yn dilyn y pandemig. Roedd cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu yn parhau i gael eu cynnal ar-lein gyda Chadeiryddion y pwyllgorau ac ambell swyddog cymorth pwyllgorau yn Neuadd y Sir, roedd holl aelodau a swyddogion eraill wedi ymuno â chyfarfodydd o bell.

4.3 Mae'r Adroddiad Blynyddol ynghlwm yn Atodiad 1. Mae'n rhoi cyflwyniad byr i'r darllenwr ynglŷn â beth yw craffu a sut mae craffu'n gweithredu, ochr yn ochr â throsolwg o'r gwaith y mae pwyllgorau a'u haelodau wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut y gall preswylwyr gyfranogi a chyfrannu at y broses graffu. Ar ôl cael cymeradwyaeth, caiff yr adroddiad ei gyfieithu a bydd ar gael ar wefan y Cyngor.

4.4 Mae'r adroddiad yn amlinellu sut mae'r Pwyllgor Craffu wedi cefnogi gwaith y Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol ac yn y pen draw ei Gynllun Corfforaethol erbyn diwedd ei gyfnod mewn swydd yn 2022. Wrth gyflawni'r gwaith hwn, roedd y pwyllgor wedi cynnal cymysgedd o waith craffu cyn gwneud penderfyniadau, ac ar ôl eu gwneud, gyda phwyllgorau unigol yn canolbwyntio eu gwaith ar nifer o feysydd penodol, fel perfformiad corfforaethol, effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth wrth ddarparu gwasanaethau, budd cymunedol ac economaidd yn ogystal â gwaith adfer Covid-19.

4.5 Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi trosolwg o:

- waith y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych
- rôl allweddol y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu i sicrhau craffu effeithiol; a'r
- broses ar gyfer cynnig testun at sylw'r Pwyllgor Craffu a'r dull a ddefnyddir i benderfynu pa un a yw testun yn addas ar gyfer archwiliad manwl gan y Pwyllgor Craffu.

4.6 Mae'r adroddiad hefyd yn crynhoi:

- casgliadau'r adolygiad a gynhelir yn dilyn yr unig alw i mewn penderfyniad y Cabinet yn ystod y flwyddyn
- y gwaith a wnaed gan nifer o Weithgorau Tasg a Gorffen Craffu oedd yn adrodd i'r Pwyllgor Craffu a sut oedd y Pwyllgor Craffu yn symud ymlaen gyda'u hargymhellion; a'r
- mathau o waith ychwanegol a ymgymerwyd gan Aelodau Craffu.

4.7 Mae ymgysylltu â'r cyhoedd ac annog preswylwyr i ryngweithio gyda'r Pwyllgor Craffu yn parhau i fod yn heriol. Er bod preswylwyr a rhanddeiliaid yn awyddus i ymgysylltu â'r Pwyllgor Craffu, os yw pwyllgor yn trafod mater o bryder lleol, neu benderfyniad dadleuol posibl, mae'n llawer anoddach denu diddordeb y cyhoedd mewn penderfyniadau Craffu eraill. Er hynny, yn ystod 2021/22 roedd yn galonogol iawn cael myfyrwyr o Ysgol Dinas Bran yn cysylltu â'r Pwyllgor Craffu yn gofyn am gael cymryd rhan yn y drafodaeth ar ddileu'r defnydd o blastig untro yn y Gwasanaeth Prydau Ysgol. Yna, roedd y Pwyllgor Craffu yn gallu cyfleu pryderon a sylwadau'r myfyrwyr i'r Cabinet. Yn yr un modd, roedd cael teuluoedd defnyddwyr gwasanaeth yn cyfrannu at y drafodaeth ar ddewisiadau posibl ar gyfer ailagor gwasanaeth cyfleoedd gwaith Meifod i bobl ag anableddau dysgu yn dilyn y pandemig yn hynod gadarnhaol. Roedd eu cyfraniadau yn amlygu faint oedd defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd yn gwerthfawrogi profiadau a sgiliau a gafwyd ym Meifod, a'u balchder yn enw da Meifod, yn lleol ac ymhellach i ffwrdd am gynhyrchu dodrefn gardd o'r ansawdd gorau.

4.8 Mae aelodau o'r cyhoedd yn gallu cyflwyno cais i'r Pwyllgor Craffu archwilio testun penodol neu fater sy'n achosi pryder. Mae hyn yn cael ei wneud drwy gyflwyno ffurflen cynnig Craffu y gellir ei chwblhau yn electronig neu drwy gyflwyno copi papur o'r ffurflen y gellir dod o hyd iddi ar gefn yr Adroddiad Blynyddol ynghlwm. Gyda'r bwriad i wella mwy o ymgysylltu â'r cyhoedd a chymryd rhan mewn Craffu, mae'n ofynnol i holl gynghorwyr sir dynnu sylw preswylwyr at y cyfleuster hwn a'r dull ar gyfer gofyn i'r Pwyllgor craffu archwilio materion sy'n achosi pryder iddyn nhw.

4.9 Drwy gydol y flwyddyn roedd y Pwyllgor Craffu wedi parhau i ymgysylltu gyda'r cyhoedd a phartneriaid preifat gyda'r bwriad o weithio'n effeithiol gyda'i gilydd i wella gwasanaethau a deilliannau ar gyfer preswylwyr. Yn ystod 2021/22 mae nifer o wahanol sefydliadau cyhoeddus a phreifat yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu

a/neu Grŵp Tasg a Gorffen ac yn cyfrannu at eu gwaith. Ymysg y sefydliadau hyn oedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC), GwE (Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru), Cydfenter Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (DVSC), Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, sefydliadau amaethyddol a thirfeddianwyr, Cymdeithas y Tirfeddianwyr (CLA), Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) yn ogystal ag Ymgynghorwyr Perygl Llifogydd preifat a chwmni Peirianneg Dŵr. O ganlyniad i gyfrannu at grŵp tasg a gorffen, dywedodd un cynrychiolydd sefydliad allanol gymaint yr oedd wedi mwynhau bod yn rhan o'r grŵp, gan ddweud ei fod yn edrych ymlaen at gyfrannu yn y dyfodol hefyd, gan ei fod yn meddwl bod yna lawer o ganlyniadau cadarnhaol o ymdrechion y Grŵp.

4.10 Wrth i dymor mewn swydd y Cyngor ddod i derfyn, roedd y GCIGC wedi cynnal ymarfer gwerthuso o effeithiolrwydd swyddogaethau Craffu. Yn ystod y misoedd nesaf bydd y Grŵp yn dadansoddi canlyniadau'r ymarfer hwnnw gyda'r bwriad i nodi meysydd sydd angen eu cryfhau a'u gwella yn ystod tymor newydd y Cyngor.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd craffu effeithiol yn gymorth i'r Cyngor gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol yn unol ag anghenion cymunedau a dymuniadau trigolion ac o fewn y gyllideb.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol yn rhan o'r gwaith rheolaidd o anfon adroddiadau pwyllgorau at gynghorwyr sir ac eraill, felly nid oes costau ychwanegol ynghlwm â'i gyhoeddi. Ar ôl cael cymeradwyaeth, caiff yr Adroddiad Blynyddol ei gyfieithu a bydd ar gael ar fewnrwyd a gwefan y Cyngor.

6.2 Telir unrhyw gostau mewn perthynas â gwaith y grwpiau tasg a gorffen o fewn y cyllidebau presennol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les gan nad yw'r adroddiad hwn yn ceisio unrhyw benderfyniad na newid i bolisi. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno er mwyn rhoi gwybod i gynghorwyr a thrigolion am waith y Pwyllgorau Craffu yn ystod y deuddeng mis blaenorol yn unig ac fel modd o amlinellu meysydd gwaith posib' yn y dyfodol.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Mae aelodau'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi bod yn ymwneud â drafftio'r Adroddiad Blynyddol ac ymgynghorwyd â nhw ar ei gynnwys.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn. Fel y soniwyd ym mharagraff 6 uchod bydd unrhyw gostau sy'n ymwneud â chynhyrchu'r Adroddiad yn cael eu cynnwys o fewn cyllidebau presennol, fel unrhyw gostau sy'n codi drwy sefydlu grwpiau tasg a gorffen.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nid oes unrhyw risgiau wedi'u canfod ynghlwm ag ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2 Adran 7.4.4 o Gyfansoddiad y Cyngor.